# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 30 IONAWR 2019 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:
C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau) ac R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn Bresennol:

S. Couzens (Prif Swyddog Tai), P. Smythe (Rheolwr Technegol Tai), L. Allen (Cyfrifydd Grŵp - Tai), N. Scammell (Pennaeth Cyllid Corfforaethol ac S151), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), H. Lancaster (Uwch Swyddog Cyfathrebu) ac A. Dredge (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Swyddfa Archwilio Cymru - N. Jenkins ac S. Jones.

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau dros absenoldeb gan M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorwyr B. A. Jones a N. George fuddiannau personol mewn perthynas ag eitem agenda 6 - Ffioedd Cyfrif Refeniw Tai 2019-2020, ar ddechrau'r cyfarfod. Nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod pan gyflwynwyd yr adroddiad ac roeddent yn gallu cymryd rhan yn y ddadl a'r bleidlais. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

### 3. CABINET - 16 IONAWR 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019 (rhifau cofnod 1 - 8) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

### MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. ADOLYGIAD SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC) SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU (SAC)

Roedd yr adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar ganlyniad yr adolygiad dilynol gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar raglen gyflwyno SATC. Mae hyn yn dilyn yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 1 Tachwedd 2017. Atgoffwyd y Cabinet, yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2017, fel rhan o gynllun archwilio perfformiad SAC, ymgymerodd SAC ag adolygiad o drefniadau'r Cyngor i gyflwyno SATC erbyn 2020. Ar adeg yr adolygiad, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad bod *"y rhan fwyaf o gartrefi tenantiaid yn parhau i fod yn is na safon SATC oherwydd rheoli aneffeithlon ac aneffeithiol y rhaglen ac mae'n annhebygol y bydd y Cyngor yn cyrraedd y safon erbyn 2020."* Mae SAC bellach wedi cwblhau ei adolygiad dilynol a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Hydref 2018 ac erbyn hyn, daethom i'r casgliad bod *"y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'n hadroddiad SATC Mehefin 2017 ac argymhellion statudol drwy wneud gwelliannau sylweddol, ac o ganlyniad, rydym bellach yn dod i'r casgliad ei fod yn debygol o gyrraedd SATC erbyn Rhagfyr 2020."*

Crynhodd Ms N. Jenkins a Mr G. Jones o SAC yr adroddiad a chadarnhaon fod yr adolygiad dilynol wedi'i gynnal mewn dwy ran. Adolygiad o Bersbectif Defnyddwyr Gwasanaethau - a oedd yn canolbwyntio ar y safbwyntiau o 489 o denantiaid a 25 o lesddeiliaid mewn perthynas â chyflwyno rhaglen SATC. Adolygiad Dilynol - i benderfynu a yw'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau a gwneud cynnydd boddhaol i gwrdd â SATC erbyn dyddiad cau Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r adroddiadau dilynol a ddarparwyd gan SAC yn rhoi darlun llawer mwy cadarnhaol ar sefyllfa bresennol rhaglen SATC a hefyd yn darparu hyder annibynnol bod Cartrefi Caerffili ar y trywydd iawn i gyflwyno'r rhaglen lawn erbyn Rhagfyr 2020.

Mae'r Adolygiad o Bersbectif Defnyddwyr Gwasanaeth (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn cyfeirio at 3 chynnig ar gyfer gwella. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn derbyn y cynigion a byddant yn mynd i'r afael â'r un peth wrth symud ymlaen. Derbyniwyd bod angen gwelliannau a chysondeb yn y ffordd y cyflwynir gwybodaeth am berfformiad a rhoddwyd sylw i'r mater hwn o fewn yr adroddiad. Yn ogystal, bydd y Strategaeth Tai Lleol yn cael ei datblygu yn ystod 2019 ac fe gynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adroddiadau polisi allweddol ar yr adeg briodol. Roedd y swyddogion yn falch o nodi bod y cynnydd a wnaed wedi cael ei gydnabod gan SAC.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad a thynnodd sylw at y manteision a'r pwysigrwydd o weithio gyda thenantiaid trwy'r broses hon. Diolchodd yr Aelodau i SAC am yr adroddiad cytbwys a thrylwyr a dywedodd y gellir defnyddio hyn fel dogfen weithredol wrth symud ymlaen. Diolchodd y cynrychiolwyr o SAC i'r Swyddogion yn eu tro am eu cymorth drwy gydol y broses.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, nodi adroddiadau SAC ac ymatebion y Swyddogion i'r adroddiadau a'r cynigion ar gyfer gwelliant.

## 5. ADRODDIAD CYNNYDD SATC – CAMAU TERFYNOL

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg o berfformiad Tîm Safon Ansawdd Tai Cymru hyd yma i'r Cabinet a hefyd nododd perfformiad a ragwelir hyd at fis Rhagfyr 2020. Mae manylion y gwariant cyfalaf ar gyfer 2018/19 ar gyfer gwaith SATC hefyd wedi'u cynnwys, ynghyd â throsolwg o'r nifer o gyflawniadau a wnaed fel rhan o'r ymrwymiadau a'r manteision ehangach a gyflwynwyd gan raglen SATC.

Crynhodd y swyddogion gynnydd rhaglen SATC hyd yma, gyda manylion pellach yn yr adroddiad a'i atodiadau. Nododd y Pwyllgor y manylion o gefndir SATC, y contractau a sefydlwyd ar draws gwaith mewnol ac allanol a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno gwaith a chyfraddau cwblhau arolygon a chydymffurfio. Roeddent hefyd yn cynnwys lefelau boddhad tenantiaid ar gyfer ansawdd gwaith mewnol ac allanol a'r safonau a gyflawnwyd.

Cynghorwyd y Cabinet mai'r lefelau cydymffurfio cronnus presennol yw 80% ar gyfer gwaith mewnol a 62% ar gyfer gwaith allanol. Y lefelau boddhad tenantiaid yw 88% ar gyfer gwaith mewnol a 71% ar gyfer gwaith allanol. Cyfanswm y gwariant a ragwelir hyd at fis Mawrth 2019 yw £200miliwn a bydd angen benthyg £20miliwn eleni. Rhagwelir y bydd yr amcangyfrif o £220miliwn ar gyfer cyflwyno rhaglen SATC yn debygol o fod yn rhy isel, er bod y Swyddogion wedi cadarnhau na fydd angen cynnydd mewn benthyg ar hyn o bryd. Er rhagwelir y bydd cydymffurfiaeth lawn ar 15 Mai 2020 ar gyfer gwaith mewnol a 10 Ebrill 2020 ar gyfer gwaith allanol, gobeithir y gellir cyflwyno'r rhain erbyn Mawrth 2020 i ganiatáu unrhyw argyfyngau annisgwyl a chyflawni cydymffurfiad SATC yn llawn cyn y dyddiad cau yn Rhagfyr 2020.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad a'r nifer o fanteision a grëwyd gan Rhaglen SATC . Roedd hyn yn cynnwys y nifer o swyddi a phrentisiaethau sydd wedi'u creu fel rhan o'r broses lwyddiannus. Cadarnhaodd Swyddogion mai'r bwriad yw y bydd y prentisiaethau'n parhau ac yn cael eu hadeiladu i'r strwythur pan fydd pobl yn ymddeol ac ati. Yn ogystal, mae angen buddsoddi'n helaeth yn y gweithlu, a nodwyd bod y gweithlu mewnol wedi cyflawni lefelau bodlonrwydd uwch o'u cymharu â darparwyr allanol. Cadarnhaodd swyddogion hefyd fod yn rhaid cynnal y Rhaglen ar ôl 2020. Trafododd yr Aelodau hefyd ailgodi taliadau ac os yw hyn yn dal i fod yn berthnasol i unrhyw ddifrod a achosir i eiddo'r Cyngor. Dywedodd swyddogion mai cyfrifoldeb y Cyngor a'r Tenant yw hyn. Pan fydd Swyddogion yn gwneud ymweliadau, mae ganddynt ddyletswydd i wneud sylwadau ynghylch cyflwr eiddo a hefyd hyrwyddo ac annog y manteision o gael yswiriant cartref.

Cyflwynwyd yr adroddiad i Grŵp Gorchwyl Cartrefi Caerffili ar 6 Rhagfyr 2018 a'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 16 Ionawr 2019, a chefnogodd y ddau ohonynt yr argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad yn unfrydol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, ar nodi 'Adroddiad Cynnydd Safon Ansawdd Tai Cymru – Camau Terfynol'.

## 6. TALIADAU'R CYFRIF REFENIW TAI – 2019/2020

Datganodd Cynghorwyr B. A. Jones (Tenant Tai'r Cyngor) ac N. George (Lesddeiliad Garej) fuddiannau personol mewn perthynas â'r eitem hon ar ddechrau'r cyfarfod. Nid oedd yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod pan gyflwynwyd yr adroddiad ac roeddent yn gallu cymryd rhan yn y ddadl a'r bleidlais.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am y taliadau rhent arfaethedig sy'n canolbwyntio'n bennaf ar renti tai'r cyngor ac y bwriedir iddynt fod yn effeithiol ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20.

Crynhodd swyddogion y broses sy'n gysylltiedig â pharatoi cyllideb y CRT. Atgoffwyd y Cabinet fod Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn gosod band rhent targed ar gyfer pob Awdurdod lle mae'n rhaid i gynghorau addasu rhenti cyfartalog ar gyfer eu heiddo yn unol â'r bandio hyn. Mae'r cynnydd ar y polisi rhent yn sefydlog am bum mlynedd ac yn defnyddio ffigwr chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (MPD) y mis Medi blaenorol (yn hytrach na ffigwr chwyddiant Mynegai Prisiau Manwerthu). Mae hefyd yn ychwanegu cynnydd gwirioneddol o 1.5% i rent cyfartalog yr awdurdod lleol a disgresiwn ychwanegol o £2 yr wythnos i landlordiaid cymdeithasol sy'n cwrdd â rhai meini prawf. 2018/19 oedd blwyddyn olaf y cytundeb pum mlynedd presennol ac yn dilyn pwysau gweinidogol wrth gymharu rhenti

Cymru i'r rheiny yn Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi cytunoy dylai'r cynnydd fod yn y MPD ar gyfer 2019/20 yn unig. Mae'r disgresiwn i ymgeisio hyd at £2 yr wythnos wedi'i dynnu ar gyfer y landlordiaid cymdeithasol hynny y mae eu rhent wythnosol ar gyfartaledd o fewn neu'n uwch na'u BandRhent Targed. Bydd y penderfyniad hwn yn gwneud cais am flwyddyn yn unig tra bod Llywodraeth Cymru'n disgwyl canlyniad yr Adolygiad Cyflenwad Tai Fforddiadwy.

Roedd ffigwr chwyddiant MPD y mis Medi blaenorol yn 2.4% a dybiodd y Cynllun Busnes gynnydd rhent o 3%. Mae ychwanegu 2.4% i'r rhent ar gyfartaledd yn golygu bod Cyngor Caerffili ychydig yn is na'r Band Rhent Targed, ac felly gellir cynyddu hyn hyd at uchafswm o £2 er mwyn sicrhau y cynhwysir yn y cwmpas.Er mwyn bod ar waelod yr Amrediad Band Targed, mae angen cynnydd o 2.7% o leiaf, ac er mwyn bodloni gofynion Cynllun Busnes Tai, mae angen cynnydd o 3%. Y cynnydd rhent uchaf y gellir ei ychwanegu gan yr Awdurdod yw 4.74%. Amlygwyd yr holl daliadau perthnasol yn yr adroddiad a oedd yn manylu ar yr incwm ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu (ac eithrio bylchau gwag) ar gyfer pob un o'r lefelau cynnydd arfaethedig, ynghyd â chanran y defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn budd-dal tai. Mae angen yr incwm cynyddol i wrthbwyso codiadau chwyddiant eraill o fewn y maes gwasanaeth a chefnogi cyflwyno'r holl wasanaethau sy'n ymwneud â thai, gan gynnwys cyflwyno'r rhaglen SATC.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 15 Ionawr 2018, lle argymhellodd yr Aelodau (gan y mwyafrif yn bresennol) am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad fod y cynnydd o 3% fesul eiddo i gydymffurfio â'r Cynllun Busnes Tai yn cael ei gymhwyso o fis Ebrill 2019. Trafododd y Cabinet yr argymhellion yn yr adroddiad ac eglurodd y Swyddogion y dylid cymeradwyo'r lefel 2.7% (y cynnydd lleiaf i osod rhenti ar waelod absoliwt y cwmpas renti) a byddai hyn yn arwain at yr adran yn gorfod benthyg arian i gyflawni ei gyllideb. Hefyd, mae ansicrwydd yn y lefelau rhent yn y dyfodol a dywedodd Swyddogion ei fod yn ddoeth cymeradwyo'r cynnydd o 3% ar hyn o bryd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog, ar gymhwyso'r cynnydd o 3% fesul eiddo i gydymffurfio â Pholisi Rhent a Chynllun Busnes Tai Llywodraeth Cymru o fis Ebrill 2019 .

## 7. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB REFENIW'R AWDURDOD CYFAN 2018/19

Rhoddodd yr adroddiad hwn sefyllfa diweddaraf i'r Cabinet mewn perthynas â monitro cyllideb refeniw ar draws yr awdurdod gyfan ar gyfer 2018/19. Mae adroddiadau monitro cyllideb fanwl yn cael eu paratoi ar gyfer Pwyllgorau Craffu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r tueddiadau gwariant ac incwm yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn a gwnaed rhagamcanion o'r sefyllfa alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn. Lle nodwyd amrywiadau yn y gyllideb, gwnaed sylwadau arnynt drwy'r adroddiad. Dosbarthwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau fel eitem wybodaeth cyn y cyfarfod ar 15 Ionawr 2019. Nid oedd unrhyw sylwadau oddi wrth y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau.

Atgoffwyd y Cabinet o'r rhagolygon ariannol heriol parhaus ar gyfer Llywodraethau Lleol a'r angen i nodi arbedion sylweddol i gefnogi Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Mae swyddogion wedi bod yn ymwybodol o hyn ac, o ganlyniad, cafodd gwariant ei dorri
mewn nifer o feysydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda'r bwriad o nodi arbedion ymlaen llaw i gefnogi'rCynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r dull doeth hwn wedi arwain at duedd o danwariant adroddedig ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer rhai Cyfadrannau. Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff 4.2. yn yr adroddiad sy'n darparu cymhariaeth rhwng cyllideb wreiddiol 2018/19, cyllideb ddiwygiedig (lle mae newidiadau a gymeradwywyd wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn), a'r alldro a ragwelir. Ceir y manylion mewn perthynas â phob maes gwasanaeth yn Atodiadau 2 i 5. Cyfanswm y tanwariant cyllideb refeniw rhagamcanol ar gyfer yr Awdurdod

ar gyfer 2018/19 yw £1,899,000. Dywedodd y Swyddog fod hwn yn ddarlun cadarnhaol ac mae'r rhagamcaniad yn llai nag yn y blynyddoedd blaenorol. Nododd yr Aelodau, wrth symud ymlaen, efallai y bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau cadarn o ran monitro'r gyllideb a bod tanwariant a brofwyd yn flaenorol bellach yn diflannu.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad ffeithiol. Diolchwyd i'r staff o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol am droi'r gorwariant a ragamcanwyd yn gynharach. Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn Pecynnau Ffioedd Gofal Maeth lleol sydd wedi arwain bellach at yr Adran yn rhoi'r gorau i ddefnyddio Gofalyddion Maeth annibynnol ac mae Caerffili bellach yn cael ei ystyried ar lefel Genedlaethol o ganlyniad i'r cynnydd hwn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, bod Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaethau'n parhau i adolygu lefelau gwariant ac incwm er mwyn sicrhau bod cyllidebau blynyddol ac arbedion yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflawni.

## 8. Y DIWEDDARAF AR GRONFEYDD WRTH GEFN

Rhoddodd yr adroddiad fanylion i'r Cabinet am y cronfeydd wrth gefn y mae'r Awdurdod yn eu cynnal ac roedd yn cynnwys cynigion i ddefnyddio'r £109.796 miliwn a oedd ar gael ar 1 Ebrill 2018, sef £10.8 miliwn yn is na lefel y flwyddyn flaenorol. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn Gwasanaethau mewn perthynas â'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, ynghyd â'r rhyddhau arfaethedig o gronfeydd wrth gefn ar draws nifer o feysydd ar gyfer gwariant untro'n unig. Atgoffwyd Aelodau dim ond unwaith y bydd y cronfeydd wrth gefn hyn (yn nodweddiadol ar gyfer gwariant cyfalaf a symiau amodol ar gyfer rhwymedigaethau annisgwyl posibl) ac y dylid cynghori'n gryf na chaiff y rhain eu defnyddio i lenwi'r bylchau lle mae angen arbedion mewn perthynas â chynigion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Nododd y Cabinet falans y Gronfa Gyffredinol (rhagamcenir y bydd yn £10 miliwn ar 31 Mawrth 2019), manylion cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyfrif Refeniw Tai (£5.090 miliwn ar 1 Ebrill 2018) a Chronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf (£39.808 miliwn ar 1 Ebrill 2018). Nodwyd bod y cronfeydd wrth gefn penodol hyn wedi'u neilltuo at ddibenion penodol fel y'u nodir yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy ar gyfer pob Cyfadran (£31.605 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol, £4.679 miliwn ar gyfer Cymunedau, £8.419 miliwn ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes a £6.995 miliwn ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol). Gwnaed gwaith i sefydlu cronfeydd wrth gefn y Gyfadran sydd â'r potensial i'w rhyddhau, a phan nodwyd hynny, cafodd y rhain eu hamlygu'n ddu drwy Adrannau 4.5-4.8 yr adroddiad.

Yn ogystal, nododd yr adroddiad fanylion tanwariant gwasanaeth ar gyfer pob Cyfadran, ac eglurwyd, yn unol â'r Strategaeth Wrth Gefn a gytunwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2016, gosodwyd cap o 3% ar y swm cronnus y gellir ei gynnal gan Gyfadrannau mewn cronfeydd tanwariant gwasanaeth. Gan fod Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi mynd dros y cap hwn, roedd yr adroddiad felly'n crynhoi cynigion i ddefnyddio'r tanwariant gormodol ychwanegol hwn (cyfanswm o £0.764 miliwn). Roedd y cynigion hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer arian cyfatebol Band B Rhaglen Cyfalaf yr 21ain Ganrif, Adnoddau Adolygiad ôl-16/Adain Sengl, Gweithredu Strategaeth Ddigidol, a Hyfforddiant a Datblygu Arweinyddiaeth 2020 Caerffili.

Ystyriwyd yr adroddiad, a gyflwynir yn flynyddol, gan y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 15 Ionawr 2019. Mae'r Awdurdod yn agored ac yn dryloyw o ran cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Mae swyddogion wedi mynychu nifer o sesiynau gyda'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd Cyllid yn mynd trwy'r fantolen. Hysbyswyd yr Aelodau bod y swm o £110 miliwn

wrth gefn yn gymesur ar gyfer maint yr Awdurdod Lleol hwn. O ran yr ansicrwydd ynghylch Brexit a ffrydiau ariannu eraill, eglurodd y Swyddog y gallai fod goblygiadau sylweddol i'r Awdurdod. Gallai hyn arwain at gael llai o arian ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, gallai fod colli swyddi ac efallai y bydd yr Awdurdod yn gorfod ariannu ei dwf ei hun ar gyfer ei Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Mewn perthynas ag arian cyfatebol Band B, cadarnhawyd y bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yn cwrdd â Llywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2019 lle y gobeithir y bydd eglurhad yn cael ei ddarparu ynghylch cyllid yn y dyfodol a newidiadau i delerau ac amodau.

Oherwydd lefel yr ansicrwydd, cytunodd y Cabinet i ddiwygio paragraff 10.1.4. a bod cyfanswm y cyllid o £16 miliwn yn hytrach na £20.08 miliwn (heb £1 miliwn wrth gefn a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer canlyniad y broses Brexit a £3 miliwn a gadwyd yn ôl oherwydd ansicrwydd ynghylch telerau ac amodau Brexit a Band B) yn cael ei ryddhau o'r amrywiol gronfeydd wrth gefn fel y manylir arnynt drwy'r adroddiad ac a neilltuwyd yn y fantolen ar gyfer gwariant untro'n unig. Ac argymhelliad ychwanegol yw cynnwys dyrannu £6.2 miliwn o'r £16 miliwn ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B (£5 miliwn), Prosiectau'r Bwrdd Adfywio (£1.2 miliwn) a'r £9.8 miliwn sy'n weddill i fod yn ddarostyngedig i adroddiadau manwl i'r Pwyllgorau perthnasol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, yn ddarostyngedig i ddiwygio paragraff 10.1.4. i ddarllen nawr *bod cyfanswm y cyllid o £16 miliwn yn hytrach na £20.08 miliwn (heb £1 miliwn wrth gefn a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer canlyniad y broses Brexit a £3 miliwn a gadwyd yn ôl oherwydd ansicrwydd ynghylch telerau ac amodau Brexit a Band B) yn cael ei ryddhau o'r amrywiol gronfeydd wrth gefn fel y manylir arnynt drwy'r adroddiad ac a neilltuwyd yn y fantolen ar gyfer gwariant untro'n unig* ac argymhelliad ychwanegol i gynnwys *y dylid dyrannu £6.2 miliwn o'r £16 miliwn ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B (£5 miliwn), Prosiectau'r Bwrdd Adfywio (£1.2 miliwn) a'r £9.8 miliwn sy'n weddill i fod yn ddarostyngedig i adroddiadau manwl i'r Pwyllgorau perthnasol* ac am y rhesymau a geir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) nodi cynnwys yr adroddiad;

(ii) defnyddio'r cronfeydd tanwariant cronedig uwchben y cap o 3% ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes fel y manylir arnynt yn 4.9.2 yr adroddiad;

(iii) rhyddhau cronfeydd wrth gefn penodol sy'n ymwneud â'r Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol, sef cyfanswm o £1.5 miliwn a'u dyrannu tuag at arian cyfatebol Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif;

(iv) rhyddhau cyfanswm y cyllid o £16 miliwn yn hytrach na £20.08 miliwn (heb £1 miliwn wrth gefn a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer canlyniad y broses Brexit a £3 miliwn a gadwyd yn ôl oherwydd ansicrwydd ynghylch telerau ac amodau Brexit a Band B) o'r amrywiol gronfeydd wrth gefn fel y manylir arnynt drwy'r adroddiad ac a neilltuwyd yn y fantolen ar gyfer gwariant untro'n unig;

(v) dyrannu £6.2 miliwn o'r £16 miliwn ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B (£5 miliwn), Prosiectau'r Bwrdd Adfywio (£1.2 miliwn) a'r £9.8 miliwn sy'n weddill i fod yn ddarostyngedig i adroddiadau manwl i'r Pwyllgorau perthnasol

## 9. STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU CBSC

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet ar Strategaeth ddrafft Cyfathrebu ac Ymgysylltu CBSC 2019 - 2022.

Cynghorwyd y Cabinet bod y cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod y sefydliad cyfan yn cyfathrebu'n effeithlon ac yn effeithiol â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned. Mae cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn hanfodol os yw Swyddogion i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a datblygu llif gwybodaeth ddwy ffordd rhwng y cyngor a chynulleidfaoedd allweddol. Datblygwyd y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu newydd sy'n nodi ymagwedd y cyngor tuag at gyflawni ei weithgarwch cyfathrebu ac yn amlinellu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r gwaith hwn. Esboniodd y swyddogion y bydd y Strategaeth yn rhedeg o 2019 i 2022 ac yn ein gosod o'r realiti lle mae'r Cyngor yn awr i ddyheadau'r dyfodol ac yn cael ei hategu gan gynllun gweithredu manwl. Mae'r strategaeth yn esbonio'r egwyddorion am sut y bydd y Cyngor yn cyfathrebu'n agored ac yn dryloyw, mewn modd syml, annhechnegol y bydd pobl yn gallu ei ddeall. Mae hefyd yn nodi'r gwahanol sianelau ac offer cyfathrebu y byddwn yn eu defnyddio i gyrraedd cymaint o bobl â phosib gyda'n negeseuon allweddol.

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn wynebu heriau ariannol heb eu tebyg ac mae'n annhebygol y bydd y sefyllfa hon yn newid dros y 3-4 blynedd nesaf, felly mae cyfathrebu effeithiol, ynghyd agymgysylltu cymunedol helaeth, yn ffurfio rhan allweddol o reoli'r broses anodd hon. Mae angen hefyd adlewyrchu'r tirlun cyfathrebu sydd byth yn newid - yn enwedig o ran poblogrwydd cynyddol sianelau cyfryngau digidol a chymdeithasol. Mae'r ffordd y mae pobl yn derbyn, prosesu a rhannu gwybodaeth yn newid, felly mae'n hollbwysig bod yr awdurdod yn cadw i fyny gyda'r agenda hon. Bydd y Strategaeth yn galluogi'r sefydliad i fabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig at gyfathrebu a bydd yn helpu i leoli cyfathrebu effeithiol wrth wraidd holl waith yr awdurdod.

Bydd y Strategaeth yn cael ei chyflwyno gan yr Uned Gyfathrebu gorfforaethol, yn Nhŷ Penallta a Thŷ Tredomen (timau dylunio ac argraffu). Mae eu gwasanaethau allweddol wedi'u nodi ym mharagraff 4.7. yn yr adroddiad. Rhoddodd y swyddogion drosolwg o'r dull Ymgyrch Newydd i Gyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys dull strategol at y gweithgaredd o gyfathrebu, a fydd yn cefnogi'r blaenoriaethau corfforaethol, yn helpu i ganolbwyntio mwy ar weithgareddau strategol ac yn hyrwyddo amcanion y sefydliad. Bydd yn helpu i roi llais clir i'r sefydliad - naratif cryf gyda rhai negeseuon allweddol cyffredinol, sef yr hyn y mae'r sefydliad am i drigolion, busnesau ac ymwelwyr 'feddwl' wrth feddwl am Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Crynhowyd themâu'r ymgyrch newydd ym mharagraff 11 yn yr adroddiad.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog gymeradwyo'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu drafft 2019 -2022

## 10. MATER EITHRIEDIG

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad bod ar gyfartaledd y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad sy'n bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, a

> PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 14 ac 16 o Ran 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 11. CYLLID AR GYFER SETLO HAWLIAD CONTRACT

Gofynodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet am arian untro mewn perthynas â setlo anghydfod cytundebol rhwng Cyngor Sir Caerffili a Heron Brothers Limited.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog gymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ym mharagraffau 10.1.

Terfynwyd y cyfarfod am 12.20pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 13 Chwefror 2018.

________________________

CADEIRYDD